

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

TH Beedle
JE Williams

MJ Kearn

AA Pucella

G Thomas

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins

Swyddogion:

Mark Galvin	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Dros dro
Will Lane	Rheolwr Gweithredol – Cydwasanaethau Rheoleiddio
Andrea Lee	Uwch Cyfreithiwr
Michael Pitman	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau
Yvonne Witchell	Rheolydd Tîm Trwyddedu

281. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

282. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu adroddiad, a'i bwrpas oedd gofyn i'r Is-bwyllgor benderfynu ar gais i roi trwydded ar gyfer cerbyd hurio preifat. Fe gadarnhaodd fod y cais y tu allan i'r canllawiau polisi ar gyfer oedran a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu (am y rhesymau a gynhwysir yn yr adroddiad).

Fe ddywedodd hi fod Robin Leigh o Ben-y-bont ar Ogwr wedi gwneud cais i drwyddedu cerbyd Audi A6 gyda rhif cofrestru UIG 7568 fel cerbyd hurio preifat i eistedd 4 o bobl.

Mae'r cerbyd dan berchnogaeth yn barod, fe gofrestrwyd y cerbyd gyntaf gan y DVLA ar 29 Medi 2011 ac mae'r uchod yn blât rhif preifat. Cadarnhaodd dogfen Gofrestru V5 fod Mr Leigh wedi caffael y cerbyd ar 2 Mawrth 2021. Fe'i gwnaed yn ymwybodol o'r canllawiau polisi oedran sy'n bodoli ar gyfer rhoi trwyddedau cerbyd ond roedd yn dymuno parhau gyda'r cais.

Mae'r cerbyd y tu hwnt i'r canllawiau polisi oedran ar gyfer trwyddedu cerbydau am y tro cyntaf, fel sy'n cael ei nodi ym mharagraff 4.5 yr adroddiad ac nid yw'n dod o fewn categori cadair olwyn bws mini sy'n hygyrch gydag ôl-liff (tail lift).

Roedd Mr Leigh wedi cyflwyno dogfennaeth ategol sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad A yr adroddiad. Roedd y Dystysgrif MOT ddiwethaf hefyd wedi'i chynnwys yn Atodiad B.

O ran canllawiau'r Polisi Trwyddedu, cymeradwywyd y polisi canlynol gan y Pwyllgor Trwyddedu ar 17 Tachwedd 2020 a daeth i rym ar 1 Chwefror 2021. Roedd hyn yn dilyn cais gan fusnesau hurio i lacio'r canllawiau o ran polisi oedran blaenorol.

“O 1 Chwefror 2021, rhaid i gerbydau a gyflwynir i'w trwyddedu am y tro cyntaf fod yn llai na 5 oed o ddyddiad y cofrestriad cyntaf; neu ei ddefnydd / dyddiad cynhyrchu cyntaf os

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) - DYDD MAWRTH, 13 EBRILL 2021

yw'r cerbyd yn cael ei fewnforio, ac eithrio cerbydau math bws mini sydd ag ôl-lifft awtomatig parhaol a all fod hyd at 10 oed o'r dyddiad trwyddedu cyntaf. "

Roedd tudalen drwyddedu'r Cyngor hefyd yn cynnwys y cyngor a ganlyn: -
'Os oes gennych unrhyw amheuaeth os ydy eich cerbyd yn dod o fewn canllawiau'r polisi yna anfonwch e-bost atom am gyngor cyn i chi wneud ymrwymiad ariannol.'

Roedd y canllawiau polisi'r un mor berthnasol i gerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

Dywedodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu wrth yr Is-bwyllgor, fod y cerbyd ar gyfer y cais hwn bron yn 10 oed ac felly ei fod y tu allan i'r canllawiau polisi y manylir arnyn nhw uchod.

283. MATERION BRYD

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:45